



**Bwletin Awdurdod S4C**  
**Cyfarfod 359 – 13 Medi 2012**  
**S4C, Caerdydd**

---

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2012.

**1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 358**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 358.

**2. Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig.

**Yr Ymgynghoriad ar y Cytundeb Gweithredu gydag Ymddiriedolaeth y BBC**

Cyhoeddwyd yr Ymgynghoriad ar y Cytundeb Gweithredu yn yr Eisteddfod Genedlaethol a mynychwyd y digwyddiad gan oddeutu 40 o bobl. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar ddydd Mawrth 23ain o Hydref.

**Llywydd y Cynulliad**

Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod gyda Rosemary Butler i drafod cyfleoedd i S4C gyflwyno gwybodaeth am ei waith i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd swyddogion yn cysylltu â swyddfa'r Llywydd i drafod ymhellach.

**3. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad ysgrifenedig.

**Diwrnod Strategaeth y Tîm Rheoli**

Cynhaliwyd diwrnod trafod strategaeth ym mis Awst. Trafodwyd y broses o ddatblygu'r strategaeth flynyddol a diben a gwerthoedd craidd S4C. Cyflwynir yr amcanion corfforaethol i'r Awdurdod ym Mis Hydref a chynhelir cyfarfod staff ar 5 Hydref.

**Yr Eisteddfod Genedlaethol**

Cafwyd wythnos o weithgareddau llywyddiannus yn yr Eisteddfod a chanmolodd IHJ y tîm hyrwyddo am wneud gwaith arbennig. Cafwyd ymateb positif i araith Coffa Owen Edwards a draddodwyd gan IHJ. Cyhoeddodd awgrymiadau ar gyfer dyfodol S4C gan gynnwys gweithio yn fwy agos gyda sefydliadau eraill a sefydlu swyddfeydd lleol i S4C yn y dyfodol.

**Gofod swyddfeydd**

Roedd y gwaith yn symud ymlaen i addasu llawr gwaelod swyddfa Llanisien ar gyfer tenantiaid newydd. Roedd IHJ yn awyddus i weld cwmnïau newydd yn cyfrannu at fwrwm yr adeilad. Yn oystal, trafodwyd addasu'r adeilad yn Llanellwedd a'r defnydd ohono.

**Mesuryddion Perfformiad**

Eglurodd IHJ fod y gwaith o ddatblygu mesuryddion perfformiad yn parhau. Mae Emyr Byron Hughes yn ystyried goblygiadau newidiadau arfaethedig gan BARB fel rhan o'i waith.

**BBC**

Eglurodd IHJ ei fod ef a Rhodri Talfan Davies wedi gofyn am ragor o waith ar ddogfen drafft y Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd. Bydd y Cadeirydd yn cwrdd â'r Arglwydd Patten yng Nghaerdydd ym mis Hydref ac estynnwyd gwahoddiad iddo ymweld ag S4C.

#### **4. Ystyried Amcanion ac Egwyddorion Cynllun Gwaith 2013**

Cyflwynwyd amserlen arweiniol i'r Awdurdod ar gyfer Cynllun Gwaith 2013. Bydd yr amserlen yn rhoi fframwaith ar gyfer gwaith yr Awdurdod, y pwyllgorau a'r Tîm Rheoli ac yn cwmpasu'r cyfnod hyd at fis Gorffennaf 2014, sef diwedd y cylch cyntaf o adrodd i Ymddiriedolaeth y BBC. Cafwyd trafodaeth parthed gofynion gwybodaeth yr Awdurdod a dulliau posibl i rannu gwybodaeth yn gyson rhwng yr Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth.

#### **5. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at yr ystod eang o raglenni. Esboniodd effaith posibl y Gemau Olympaidd ar raglenni'r haf, gan gynnwys yr Eisteddfod, ac effaith y tywydd gwael ar ddigwyddiadau chwaraeon. Nodwyd bod Fiction Factory yn cynhyrchu drama newydd sef, Mathias/Hinterland - cyd-gynhyrchiad cefn wrth gefn gyda fersiwn Saesneg i'w darlledu ar BBC Cymru/Wales. Trafodwyd y problemau sy'n codi gyda chyngherddau pan fydd comisiwn yn hwyr ac felly llai o ddylanwad gan y cynhyrchwyr teledu ar gynnwys y cyngerdd.

#### **6. Materion Eraill**

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Materion Personél
- Adroddiad Cyfathrebu